# Y Pwyllgor Deisebau

# Cofnodion (PET(3)-07-08)

**Dyddiad: Dydd Iau 08 Mai 2008**
**Amser: 09:30 - 11:15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Mike German, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru

Leanne Wood, Canol De Cymru

### Swyddogion

Stefan Sanchez, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cyfreithiwr y Cynulliad

## Yn bresennol

Ron Lloyd, Cymdeithas Preswylwyr Aberddawan a'r Ardal (ADRA)

Dr. Max Wallis, Cyfeillion y Ddaear y Barri a'r Fro

Robert Cook, Disgybl yn Ysgol Hen Felin

Bethan Hardwicke, Disgybl yn Ysgol Hen Felin

Eirwen Salisbury, Athrawes yn Ysgol Hen Felin

Leigh Evans, Cymhorthydd

Siân Davies, Mencap Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Nododd y Cadeirydd fod Andrew R.T. Davies AC wedi ymddiheuro.

### Eitem 2: P-03-093 Aberddawan

PET(3) 07-08 Papur 1

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan y deisebwyr.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn iddi ystyried paratoi canllawiau i roi cyfarwyddyd i Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch monitro gronynnau llwch tra mân.

Ysgrifennu at Asiantaeth yr Amgylchedd i ofyn pam eu bod, yn yr achos hwn, wedi penderfynu peidio â mynnu gostyngiad llymach mewn NOx fel rhan o'r drwydded hon.

Ysgrifennu at Asiantaeth yr Amgylchedd i holi am eu polisi ar fonitro lludw.

### Eitem 3: Deisebau newydd

PET(3) 07-08 Papur 2

**P-03-120 Rhondda yn erbyn Tomen Nantygwyddon (RANT)**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Ganolfan Iechyd Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am y gwaith monitro

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am wybodaeth am waith monitro hapsite, ac am y rhan sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y gwaith monitro hwn, os oes ganddi ran ynddo o gwbl.

**P-03-123 Ffyrdd heb eu mabwysiadu**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i holi ynghylch polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyswllt hwn.

**P-03-130 Band Eang yn Llansanffraid**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn am wybodaeth am ddarpariaeth band eang yn yr ardal benodol hon, ac i ofyn am ei chynlluniau i'w ddarparu yn y dyfodol.

## Eitem 6: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

PET(3) 06-08 Papur 4

**P-03-078 Sgrinio am Ganser**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb, gan na all y Pwyllgor wneud dim rhagor yn y cyswllt hwn.

Gofalu bod gan y deisebwyr fanylion cysylltu ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol.

**P-03-080 Hen Dŷ'r Ysgol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gyfeirio'r ddeiseb hon at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes i ofyn iddi ymchwilio i'r penderfyniad gwreiddiol i ganiatáu'r offeryn statudol ym 1989, a'i bod yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor am ei chasgliadau.

**P-03-088 Gwasanaeth bws gwledig**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn iddo ystyried y ddeiseb, ac iddo roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw waith sydd ganddo ar y gweill yn yr ardal honno yng Nghymru y mae'r ddeiseb yn cyfeirio ati.

**P-03-099 Llwybr aml-ddefnydd yn Nhalybont-ar-Wysg**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth roi gwybod i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd cynllun newydd ar gael.

**P-03-094 Pwll Nofio Edwardsville**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Clerc benderfynu a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr yn un o'r 10 awdurdod lleol a oedd yn rhan o sampl y Cyngor Chwaraeon.

**P-03-116 Fferm Wynt Coedwig Dyfnant**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Chludiant am wybodaeth am ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y datblygiad hwn, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn y dyfodol.

## Eitem 4: P-03-078 Ysgol Hen Felin

PET(3) 07-08 Papur 3

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan y deisebwyr.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ddwyn y ddeiseb hon i sylw'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dwyn y ddeiseb i sylw Pwyllgor Cyfle Cyfartal a Phwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gofyn i'r Clerc edrych ar argymhellion yr Adolygiad o Wasanaethau i Bobl Ifanc Anabl, i weld a ydynt yn ymdrin â phryderon tebyg i bryderon y deisebwyr.